# Blaenoriaethu Sgiliau Gogledd Cymru

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

## Pwy ydyn ni

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru (PSRGC) yn dod â chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid lleol at ei gilydd i ddeall ac ymateb i anghenion sgiliau'r rhanbarth. Rydym wedi bod yn gwneud hyn yn llwyddiannus ers dros 10 mlynedd - gan helpu i greu gweithlu ar gyfer sectorau twf a galw uchel.

Rydym yn un o bedair partneriaeth yng Nghymru. Mae ein tîm yn gweithredu o fewn strwythur llywodraethu Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (Uchelgais Gogledd Cymru). Fel yr unig bartneriaeth sgiliau sy'n cael ei rhedeg fel hyn, rydym mewn sefyllfa unigryw i weithio gyda'n gilydd ac i ddatblygu sgiliau sy'n adlewyrchu gwir anghenion economi Gogledd Cymru. Mae hyn yn ein galluogi i weithio ar draws sectorau ac awdurdodau lleol – gan sicrhau bod sgiliau yn rhan greiddiol o raglenni buddsoddi mawr gan gynnwys y Cynllun Twf, Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, Porthladd Rhydd Ynys Môn a phrosiectau ynni adnewyddadwy mawr.

Mae ein rhwydwaith eang o gyflogwyr yn rhoi mynediad i ni at y wybodaeth mwyaf diweddar, sy'n caniatáu i ni hyrwyddo a datblygu hyfforddiant ôl-16 sy'n adlewyrchu anghenion busnesau lleol. Gyda chefnogaeth ein rhwydweithiau a mynediad at dystiolaeth gadarn, rydym yn gallu darparu cyngor strategol i Lywodraeth Cymru, Cynllun Twf Gogledd Cymru, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn lleol, a chyflogwyr, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â gofynion ar gyfer y gweithlu.

## Ein Gweledigaeth

Rydym am sicrhau bod Gogledd Cymru yn ranbarth ble mae talent a sgiliau pobl yn sylfaen i economi ffyniannus a chymunedau cryf. Mae gweithlu medrus yn galluogi cyflogwyr lleol i dyfu a llwyddo, tra'n denu busnesau newydd sy'n cydnabod potensial ein rhanbarth.

## Tirwedd Sgiliau Gogledd Cymru

**37%** o swyddi gwag yn anodd eu llenwi oherwydd prinder sgiliau, yn enwedig mewn iechyd, sgiliau galwedigaethol a rolau digidol.

**70%** o gyflogwyr yn adrodd am heriau sgiliau, gyda bylchau mewn sgiliau technegol a meddal.

**48%** o gyflogwyr yn cael trafferth recriwtio talent ddigidol, gan gynnwys seiberddiogelwch a dadansoddi data.

**43%** o gyflogwyr yn disgwyl gweld twf ar gyfer swyddi gwyrdd dros 3 blynedd, fydd yn arwain at gynnydd yn y galw am sgiliau ar gyfer ynni adnewyddadwy.

**5%** Mae'r galw am sgiliau Cymraeg yn cynyddu , ond mae gostyngiad o 5% yn nifer y siaradwyr Cymraeg ers 2011.

*Data a gasglwyd drwy ymgynghori â chyflogwyr a diwydiant 2023

## PSR Mewn Rhifau

**150+** o bartneriaid yn ein rhwydwaith cyflogwyr a diwydiant

Cydweithio ar draws **5** prif raglen twf economaidd Gogledd Cymru

Partneriaethau gyda phob un o'r **5** coleg a phrifysgol yn y rhanbarth

Cysylltiadau strategol gyda phob un o'r **10** darparwr prentisiaethau yn y Gogledd

Gweithio gyda **40+** o ddarparwyr cyflogadwyedd ar hyd a lled y rhanbarth

**5000+** o ddefnyddwyr Portal Sgiliau Gogledd Cymru ar gyfer swyddi, hyfforddiant a datblygu sgiliau busnes

# Ein blaenoriaethau ar gyfer y Llywodraeth Nesaf

**Mae'r tirwedd sgiliau yng Ngogledd Cymru yn cael ei siapio gan ffactorau economaidd, strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru. Mae penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar lefel genedlaethol yn cael effaith uniongyrchol ar farchnad lafur y rhanbarth a'r ffordd y mae sgiliau yn cael eu datblygu.**

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

## 1 Ymgorffori sgiliau mewn polisi a deddfwriaeth economaidd

Sicrhau bod datblygu sgiliau yn rhan o bob strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer twf economaidd a buddsoddiad rhanbarthol. Cydnabod sgiliau fel sbardun allweddol i gynhyrchiant, arloesi a ffyniant cynhwysol ar hyd Gogledd Cymru.

## 2 Rhoi llais y cyflogwr wrth wraidd dylunio cyrsiau

Sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant yn ymateb i anghenion y farchnad lafur trwy hyrwyddo cydweithio rhwng llywodraeth, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant ar gyfer rhaglenni prentisiaeth a micro-gymwysterau. Defnyddio strwythur presennol PSR i ymgysylltu â chyflogwyr o bob maint, gan gynnwys busnesau bach i sicrhau bod eu llais yn siapio darpariaeth.

## 3 Rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau ar gyfer sectorau blaenoriaeth

Cefnogi darparwyr i gynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i sectorau sy'n bwysig i Ogledd Cymru - gan gynnwys gweithgynhyrchu uwch, adeiladu, diwydiannau creadigol, ynni a'r amgylchedd, ariannol a phroffesiynol, bwyd ac amaeth, iechyd a gofal cymdeithasol, y sector cyhoeddus, twristiaeth a lletygarwch.

## 4 Creu cyfleoedd sy'n helpu unigolion i baratoi ar gyfer eu dyfodol

Ariannu cyngor gyrfaoedd a rhaglenni hyfforddiant sy'n meithrin hyder, gwella cyflogadwyedd a sgiliau i sicrhau bod pawb yng Ngogledd Cymru yn cael cyfleoedd i ddysgu, hyfforddi, a chael swyddi gyda chyflog teg drwy gydol eu bywyd. Cefnogi partneriaid lleol i ddarparu llwybrau datblygu clir a mynediad gydol oes at wybodaeth a chyngor.

## 5 Ymrwymo i fuddsoddiad hirdymor mewn sgiliau

Sicrhau buddsoddiad hir dymor mewn sgiliau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau Gogledd Cymru ac sy'n ysgogi arloesedd. Cefnogi seilwaith, datblygiad digidol, a phartneriaethau strategol sy'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Rhoi sicrwydd cyllideb ar gyfer cynllunio sgiliau rhanbarthol a gwaith Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

# Sut allwn ni helpu gyflawni

**Gallwn bontio'r bylchau rhwng diwydiant, addysg a'r llywodraeth, a'i gwneud hi'n haws i fusnesau gael mynediad at y dalent a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.**

Rydym yma i wneud i sgiliau weithio i Ogledd Cymru a gallwn ddarparu:

- Gwybodaeth ddiweddaraf am y farchnad lafur i lywio polisïau, buddsoddiad a hyfforddiant.
- Cysylltiadau uniongyrchol â chyflogwyr ar draws sectorau allweddol, er mwyn helpu i lunio darpariaeth sy'n adlewyrchu anghenion.
- Cydweithio ar draws awdurdodau lleol, darparwyr, a diwydiant i sicrhau bod sgiliau yn cael eu datblygu fel rhan o raglenni economaidd mawr.
- Cyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth i helpu llywodraeth i wneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol ac yn helpu unigolion i gael mynediad at gyfleoedd.
- Un pwynt cyswllt ar gyfer deall y dirwedd sgiliau, cysylltu gyda phartneriaid, a chreu cyfleoedd.

## Astudiaethau Achos

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi caniatáu i mi ehangu fy rhwydweithiau a chysylltu â phobl newydd, gan roi cyfleoedd newydd i ni ysbrydoli pobl ifanc ac annog cyflogwyr eraill i feithrin eu gweithwyr rŵan ac i'r dyfodol.
**Craig Weeks, Cyfarwyddwr Gweithredu, JCB**

Roedd hi'n wych gweld faint o gyfleoedd sydd yma ar Ynys Môn i rywun sydd eisiau bod yn bensaer. Roeddwn i'n meddwl y byddai'n rhaid i mi symud i ddinas i ddod o hyd i waith ond mae'r profiad yma wedi dangos bod dyfodol i mi yma ac yn agos at adra'. Roedd hi'n ffantastic gweld hefyd faint o ferched sy'n gweithio yn y maes adeiladu.
**Freya Tomblin, Myfyriwr Bl 13 a gymerodd ran yng nghynllun Ysbrydoli i Adeiladu**

Mae'r pwyslais lleol a symlrwydd y Portal yn ei wneud yn adnodd defnyddiol iawn i'n tîm dysgu a datblygu. Beth sydd wedi bod yn arbennig o werthfawr ydy gweld enghreifftiau o sut mae cyflogwyr eraill yn y rhanbarth yn mynd i'r afael â heriau tebyg - mae hynny wedi rhoi hyder i ni roi cynnig ar bethau newydd.
**Gary Williams, Rheolwr Dysgu a Datblygu, Adra**

Mae ein pobl yn allweddol i lwyddiant ein busnes gweithgynhyrchu uwch. Nhw sy'n gwneud y gwahaniaeth. Mae cefnogaeth PSR Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru wedi bod yn hanfodol i'n galluogi ni i ddatblygu a darparu hyfforddiant o'r radd flaenaf.
**Martin Evans, Pennaeth yr Academi Ddiwydiannol, Airbus**